CIWB

**Tasg 3**

# Gŵyl Andreas

1. Sut mae Andrew yn dathlu Gŵyl Andreas?

2. Darllenwch y poster yma.

> Cinio Gŵyl Andreas
>
> yn y Ganolfan Hamdden
>
> Tachwedd 30
>
> Dewch i fwynhau.

a. Beth ydych chi'n feddwl o'r poster yma?
Meddyliwch am:
- y cynnwys
- y dylunio.

Dyma rai geiriau i'ch helpu chi:

| | | | |
|---|---|---|---|
| iawn<br>ofnadwy<br>diflas<br>di-liw<br>di-fflach | alright<br>awful<br>boring<br>lacking in colour<br>lacking in inspiration | cynnwys<br>dylunio<br>print (mawr / bach)<br>llun, lluniau<br>gwybodaeth am ... | content, to include<br>design, to design<br>(large / small) print<br>picture, pictures<br>information about |

**Mae'r poster yn...**

**Dw i'n meddwl bod y poster yn ...**

**Does dim ...**

b. Sut mae gwella'r poster?

**Rhaid cynnwys ...**

**Mae angen ...**

**Mae eisiau ...**

c. Defnyddiwch y cyfrifiadur i wneud poster lliwgar, cyffrous am Ginio Gŵyl Andreas.

Cofiwch:
Rhaid cynnwys gwybodaeth bwysig.
Rhaid perswadio pobl i ddod i'r noson, felly defnyddiwch ansoddeiriau da.

3. Nawr, beth am wahodd partner i ddod i'r noson? Ydych chi'n cofio sut i wahodd?

| | |
|---|---|
| Wyt ti eisiau dod i'r ...? | Ydw, os gwelwch yn dda.<br>Nac ydw, dim diolch. |

| | |
|---|---|
| Beth am ddod i'r ...? | Gwych, diolch.<br>Mae'n ddrwg gen i / Mae'n flin gyda fi, dw i ddim yn gallu dod. |

| | |
|---|---|
| Hoffet ti ddod i'r ...? | Hoffwn, os gwelwch yn dda.<br>Na hoffwn, dim diolch. |

Ydych chi'n cofio sut i ofyn cwestiynau?

| | |
|---|---|
| Beth sy'n digwydd? | Mae ... |

| | |
|---|---|
| Oes ...? | Oes, mae ...<br>Nac oes, does dim ... |

Hefyd:

| |
|---|
| Pryd mae ...?<br>Ble mae ...? |

| Geirfa | |
|---|---|
| ansoddeiriau | adjectives |
| gwahodd | to invite |